# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion (AC(2)-03-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 3 Mawrth 2005

### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.45pm

### Lleoliad y cyfarfod: Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Mark Isherwood (tan 11.00am) | Gogledd Cymru |
| Carl Sargeant (tan 11.00am) | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas (tan 11.00am) | Llanelli |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol) | Eitem(au) agenda |
|---|---|---|
| Bernadine Rees | Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Geoff Lang | Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam | 2 |
| Jane Perrin | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 2 |
| Paul Williams | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 2 |
| Hugh Ross | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 2 |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Rob Powell | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Janice Lawler | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Ruth Hatton | Dirprwy Glerc y Pwyllgor (Dros-dro) |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a dywedodd fod y Pwyllgor yn cyfarfod yn Abertawe er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i waith a'i wneud yn fwy hygyrch.

1.2 Gan mai hwn fyddai cyfarfod diwethaf Syr John Bourn, rhoddodd y Cadeirydd ddiolch iddo am ei

wasanaeth neilltuol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nodi ei gyfraniad eithriadol at sefydlu diwylliant archwilio trylwyr yng ngweinyddiaeth ddatganoledig Cymru.

1.3 Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Denise Idris Jones. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

1.4 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Amseroedd aros y GIG yng Nghymru**
**Papur: AC(2)-01-05(p.1)**

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Bernadine Rees, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro; Geoff Lang, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam; Jane Perrin, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Abertawe; Paul Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg; a Hugh Ross, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

2.2 Gwnaeth Carl Sargeant ddatgan buddiant fel aelod anweithredol o fwrdd Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Iarlles Caer.

2.3 Ceir cofnod gair-am-air o'r dystiolaeth yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, 'Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004'.**
**Papurau: AC(2)-03-05(p.2) AC(2)-03-05(p.3)**

3.1 Dywedodd Syr John Bourn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn y 15 argymhelliad yn llawn.

3.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, ‘Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru'.**
**Papurau: AC(2)-03-05(p.4) AC(2)-03-05(p.5)**

4.1 Dywedodd Syr John Bourn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn y naw argymhelliad yn llawn, a'i bod wedi derbyn un ohonynt yn rhannol.

4.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2005.

Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi).

## Sesiwn Breifat

## Eitem 6: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor, "Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru".
## Papur: AC(2)-01-05(p.6)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiad, 'Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru'.